SQUASH WALES | SBONCEN CYMRU

# Strategaeth Sboncen Cymru 2025-2030



# Cynnwys


1. Cyflwyniad
2. Y Tirlun Chwaraeon
3. Llwyddiant ar y Cwrt
4. Gweledigaeth a Chenhadaeth
5. Pileri Strategol
6. Data
7. Cymuned
8. Ymgysylltu
9. Twf

# Cysylltwch â Sboncen Cymru

- www.squashwales.com
- info@squashwales.com
- Facebook: /SquashWales
- Instagram: @squashwales
- X (Twitter): @Sqwales
- LinkedIn: /company/squash-wales




# Cyflwyniad

Mae strategaeth 2025-2030 yn adeiladu ar lwyddiannau strategaeth 2020-2025, ynghyd â mewnbwn gan y bwrdd, staff, partneriaid a rhanddeiliaid allanol ac mae’r tirlun chwaraeon presennol yn dylanwadu arni, yn enwedig cynnwys Sboncen yng Ngemau Olympaidd LA28. Mae'r strategaeth newydd yn cynnwys cyfres o bileri a blaenoriaethau a fydd yn helpu Sboncen Cymru i lywio drwy'r blynyddoedd nesaf o gyfleoedd sylweddol a phwysau cenedlaethol a byd-eang ar gyllid.

# Y Tirlun Chwaraeon

Mae'r proffil a'r sylw y bydd Gemau Olympaidd LA 2028 yn eu sicrhau yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i greu gweledigaeth newydd ar gyfer sboncen yng Nghymru drwy gyflwyno fersiwn modern, cyffrous ac addas i'r teledu o sboncen i gynulleidfa fawr.

Bydd angen i Sboncen Cymru, ei glybiau a'i aelodau adeiladu adnoddau a chapasiti i wneud y mwyaf o'r cyfle y bydd y Gemau Olympaidd yn ei gynnig, yn enwedig os bydd llwyddiant i Dîm Prydain Fawr. Bydd amrywiadau ar y ddarpariaeth gystadleuol draddodiadol, gan gynnwys darpariaeth wedi'i haddasu o Sboncen a Sboncen57 (pêl raced) ar gyfer gwahanol grwpiau, yn hanfodol i gadw aelodau newydd yn y tymor hir.

Yn nes at adref, mae gorwel y byd chwaraeon yng Nghymru yn parhau i fod yn un heriol, yn bennaf oherwydd pwysau ehangach yn gysylltiedig â chyllid, iechyd ac anghydraddoldeb yng Nghymru fel gwlad. Mae gan chwaraeon, yn enwedig sboncen, rôl i'w chwarae wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn, gyda phocedi nodedig o lwyddiant i'w gweld eisoes mewn ardaloedd fel Merthyr, Porthcawl ac Aberteifi, lle mae'r ymgysylltu'n gadarn ac yn tyfu oherwydd sylfaen ymroddedig o wirfoddolwyr a buddsoddiad effeithiol.

Mae'r angen dybryd am symud oddi wrth arian cyhoeddus at ffrydiau refeniw cynaliadwy wedi sbarduno datblygiad y strategaeth, gan ddefnyddio data a metrigau i fesur effaith a gwerth.

# Llwyddiant ar y Cwrt

Dan arweiniad Pencampwyr Cenedlaethol Prydain dair gwaith, Tesni Evans a Joel Makin, mae Sboncen Cymru mewn sefyllfa unigryw i gyfrannu at Dîm Prydain Fawr yn ystod cylch LA. Wrth i ni ysgrifennu’r Strategaeth hon, Joel Makin yw'r chwaraewr o'r DU sydd yn y safle uchaf ar daith y PSA, ac ar hyn o bryd mae’n rhif 4 yn y Byd. Gyda phenderfyniadau i'w disgwyl ar ddechrau 2026 ynghylch y broses gymhwyso ar gyfer y Gemau Olympaidd, ac felly maint a siâp Tîm Prydain Fawr, rhagwelir y bydd y gynrychiolaeth o Gymru yn sylweddol. Bydd sicrhau llwyddiant ar y cwrt yn y Gemau Olympaidd fel Tîm Prydain Fawr ac ar lefel byd ac Ewropeaidd fel Tîm Cymru yn bywiogi’r perthnasoedd gyda phartneriaid, cefnogwyr, cyllidwyr ac aelodau.

Bydd twf a phroffil ar lwyfan y byd yn gatalydd ar gyfer diddordeb yn y gêm ac mae angen adnoddau ar gyfer llwybrau iau i ddarparu ar gyfer twf yn y dyfodol. Bydd twf y gweithlu, cyfleusterau dymunol a chyfleoedd chwarae hygyrch yn cyd-fynd â hwb mewn aelodaeth ac adnabod talent yn y tymor hir.



# Gweledigaeth a Chenhadaeth

*Bod y gamp raced dan do rhif un yng Nghymru sy'n creu amgylchedd cadarnhaol a chynaliadwy i'n holl randdeiliaid, gan gynhyrchu twf drwy wybodaeth o ddata ac ymgysylltu â'n cymunedau, ein haelodau a phartneriaid.*

# Pileri Strategol

Mae'r strategaeth pum mlynedd hon yn nodi map ffordd clir ac uchelgeisiol i Sboncen Cymru gryfhau sylfeini'r gamp, ehangu cyfranogiad a chyflawni rhagoriaeth ar bob lefel. Yn canolbwyntio ar bedwar piler strategol; Data, Cymuned, Ymgysylltu a Thwf, mae'r cynllun hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i dyfu sboncen ledled Cymru a chreu effaith ystyrlon i chwaraewyr, clybiau, hyfforddwyr a chefnogwyr.

Mae pob piler yn diffinio maes ffocws sy'n hanfodol i'n gweledigaeth: ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf, cefnogi athletwyr elitaidd, meithrin cysylltiadau cadarn o fewn ein cymunedau, a sicrhau bod Sboncen Cymru yn gadarn, yn arloesol ac yn barod ar gyfer y dyfodol. Gyda'i gilydd, bydd y blaenoriaethau hyn yn arwain ein sylw a'n bwriad.

Mae pob elfen o'r strategaeth – y weledigaeth, y pileri a’r mesurau - yn gweithio mewn cylch integredig lle mae'r weledigaeth yn diffinio'r dyfodol a ddymunir, dyfodol a welir drwy bedwar piler sy'n sbarduno gweithredu cydlynol. Bydd edrych ar gynnydd o safbwynt data yn ein galluogi ni i roi gwybodaeth ac addasu, gan sicrhau bod pob rhan yn atgyfnerthu ei gilydd i gyflawni llwyddiant cynaliadwy. Bydd ymrwymiad i hyn yn sicrhau llwyddiant a bywiogrwydd hirdymor Sboncen yng Nghymru.


Strategy 2025-2030
Data
Places to play
Raised Performance
Increased Participation
Engagement
Raised Profile
Technology augmented offers
Inclusivity
Well supported members
Community
Adapated versions
Custodians of the sport
Growth
Number 1 racket sport in Wales
Financially sustainable
Performance pathway

# Data

**Penderfyniadau sy'n Cael eu Sbarduno gan Ddata yn Sail i Bob Gweithgarwch**

Mae data wrth galon sefydliad chwaraeon modern ac effeithiol. Mae Sboncen Cymru yn cydnabod bod rhaid i ni ddeall pwy sy'n chwarae, ble maen nhw'n chwarae a sut mae ein rhaglenni ni'n gwneud gwahaniaeth er mwyn cynyddu cyfranogiad a chynnal perfformiad. Bydd dull o weithredu sy'n cael ei arwain gan dystiolaeth yn galluogi penderfyniadau tryloyw, yn optimeiddio adnoddau, ac yn meithrin ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid.

**Bydd Sboncen Cymru yn gwneud y canlynol:**

- Archwilio'r holl ffynonellau data presennol, gan nodi bylchau a blaenoriaethu'r hyn sydd angen i ni ei wybod fel sail i benderfyniadau.
- Datblygu rhestr fanwl o gyfleusterau, eu cyflwr, eu hygyrchedd a'u cynaliadwyedd.
- Defnyddio gwybodaeth o ddata i siapio buddsoddiadau, canfod tueddiadau, a gwerthuso effaith dros amser.

**Bydd Sboncen Cymru yn gwneud hyn drwy:**

- Llunio cofrestr o gyrtiau a chyfleusterau gyda sgôr RAG (Coch, Oren, Gwyrdd), a'i diweddaru'n chwarterol a'i chyhoeddi'n agored.
- Cysylltu mapio cyfleusterau â data GIS Chwaraeon Cymru i ddelweddu'r ddarpariaeth yn ddaearyddol a'i chymharu â galw a data economaidd-gymdeithasol sydd ar gael yn gyhoeddus.
- Sefydlu proffiliau chwaraewyr cytunedig a thracio perfformiad gyda phenderfyniadau cyllido sy'n cael eu harwain gan ddata.
- Sefydlu pwy yw'r cynulleidfaoedd presennol, yn y dyfodol a photensial ar gyfer sboncen yng Nghymru

**Bydd Sboncen Cymru yn mesur llwyddiant drwy:**

- Cynnal canran isafswm o gyrtiau sy'n cadw statws "gwyrdd" ledled Cymru.
- Cynhyrchu Adroddiad Effaith Data blynyddol yn crynhoi tueddiadau a chamau gweithredu.
- Dangos canlyniadau datblygu chwaraewyr gwell drwy gefnogaeth perfformiad sy'n cael ei sbarduno gan ddata

# Cymuned

**Cymuned Sboncen Gref a Chynhwysol**

Mae Sboncen Cymru wedi ymrwymo i feithrin cymuned fywiog lle mae pawb yn teimlo perchnogaeth a balchder. Mae hyn yn golygu cefnogi clybiau, eiriol dros aelodau, a chreu cyfleoedd i bob demograffeg ymgysylltu, dim ots beth yw eu cefndir neu eu gallu.

**Bydd Sboncen Cymru yn gwneud y canlynol:**

- Datblygu fersiynau o'r gêm sy'n hygyrch i bob angen, gan gynnwys offer a sgorio wedi'u haddasu, a fformatau sy’n gynhwysol i anabledd.
- Gweithredu fel ceidwad y gamp yng Nghymru, gan gryfhau’r llywodraethu a hyrwyddo sboncen yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Dylanwadu'n weithredol ar randdeiliaid allweddol i sicrhau buddsoddiad a chefnogaeth polisi i'r gymuned sboncen.

**Bydd Sboncen Cymru yn gwneud hyn drwy:**

- Sefydlu rhaglen sboncen wedi'i haddasu sy'n targedu grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig.
- Gweithio'n agos gyda Chwaraeon Cymru, awdurdodau lleol, a phartneriaid eraill i sicrhau mynediad teg i gyfleusterau a rhaglenni.
- Creu Cynllun Eiriolaeth Cymunedol i ymgysylltu a grymuso clybiau a gwirfoddolwyr.

**Bydd Sboncen Cymru yn mesur llwyddiant drwy:**

- Dangos mwy o gyfranogiad ar draws grwpiau amrywiol a nodweddion gwarchodedig.
- Sicrhau ffrydiau cyllido newydd ac ymrwymiadau polisi sydd o fudd i glybiau ac aelodau.
- Cyhoeddi astudiaethau achos sy'n dangos effaith mentrau sy’n cael eu sbarduno gan y gymuned.

# Ymgysylltu

**Codi Proffil ac Amlygrwydd Sboncen**
Er mwyn sicrhau dyfodol y gamp, rhaid i Sboncen Cymru gynnig darpariaeth gymhellol i aelodau presennol a darpar aelodau. Mae hyn yn golygu hyrwyddo Sboncen fel gweithgaredd cyffrous, cymdeithasol sy'n rhoi llawer o foddhad ac sydd ar gael i bob oedran a chefndir.

**Bydd Sboncen Cymru yn gwneud y canlynol:**

- Datblygu strategaeth proffil clir sy'n mynd y tu hwnt i gyfryngau cymdeithasol i wella cydnabyddiaeth ac ymgysylltu.
- Cyflwyno fersiynau o'r gêm sy'n cael eu galluogi gan dechnoleg sy'n apelio at genedlaethau iau, gan gynnwys profiadau sboncen cyfranogol a thebycach i gemau.
- Ailfframio naratif sboncen i dynnu sylw at fanteision cymdeithasol y gamp ochr yn ochr â chystadleuaeth.

**Bydd Sboncen Cymru yn gwneud hyn drwy:**

- Cynnal archwiliad llawn o broffil a chyrhaeddiad presennol sboncen yng Nghymru, gan gynnwys dadansoddiad o'r cystadleuwyr.
- Lansio mentrau newydd gyda'u ffocws ar ieuenctid sy'n targedu cenedlaethau penodol, gan gynnwys Gen Z a Gen Alpha.
- Defnyddio adborth o arolygon o aelodau presennol a darpar aelodau, cyfarfodydd arddull neuadd tref ac ymweliadau staff â chlybiau, i flaenoriaethu rhaglenni gwaith a buddsoddiad.
- Hyrwyddo straeon a modelau rôl sy'n arddangos gwerth sboncen fel gweithgaredd gydol oes sy'n rhoi llawer o foddhad yn gymdeithasol.
- Ceisio cyfleoedd i ddod â digwyddiadau sboncen mawr i Gymru.

**Bydd Sboncen Cymru yn mesur llwyddiant drwy:**

- Cynyddu nifer yr aelodau cymdeithasol 20% ym Mlwyddyn 1 a 5% ym mhob blwyddyn ddilynol.
- Cyflawni twf aelodaeth cyffredinol o 25% yn ystod oes y strategaeth.
- Ennill cydnabyddiaeth drwy enwebiadau a chyrraedd y rowndiau terfynol yng Ngwobrau Cymdeithas Chwaraeon Cymru.
- Cynnal digwyddiadau sboncen proffil uchel yng Nghymru yn ystod oes y strategaeth.

# Twf

**Twf Cynaliadwy mewn Cyfranogiad a Pherfformiad**

Mae Sboncen Cymru eisiau bod y gamp raced dan do rhif un yng Nghymru, wedi'i diffinio gan dwf blynyddol, ymgysylltu ar y cwrt ac oddi arno, a rhagoriaeth mewn perfformiad a llywodraethu. Mae hyn yn gofyn am ffocws clir ar gynaliadwyedd ariannol, sylfaen chwarae a chynulleidfa estynedig, a llwybr chwaraewyr perfformiad uchel.

**Bydd Sboncen Cymru yn gwneud y canlynol:**

- Cynyddu ôl troed sboncen yng Nghymru yn ddigidol ac yn gorfforol, gan sicrhau darpariaeth addas i'r diben i bob chwaraewr, gan roi cyfle i gyfranogwyr, yn enwedig chwaraewyr iau, gyrraedd eu potensial mwyaf.
- Amrywio ffrydiau refeniw drwy ddigwyddiadau, partneriaethau a nawdd.
- Rhoi'r wybodaeth a'r gweithlu sydd arnynt eu hangen i glybiau i dyfu'n gynaliadwy.

**Bydd Sboncen Cymru yn gwneud hyn drwy:**

- Datblygu dull Elw a Cholled o weithredu gyda phob rhaglen a gweithgaredd.
- Adolygu modelau presennol a, lle bo angen, sefydlu modelau newydd o addysg hyfforddwyr, mentora a datblygu talent.
- Creu Cronfa Buddsoddi Twf i ailfuddsoddi mewn cyfranogiad a pherfformiad.

**Bydd Sboncen Cymru yn mesur llwyddiant drwy:**

- Lleihau dibyniaeth ar gyllid Chwaraeon Cymru 20% drwy incwm masnachol.
- Cyflawni'r perfformiadau gorau o ran ennill medalau mewn digwyddiadau Byd, Ewrop a'r Gymanwlad.
- Nifer y chwaraewyr iau sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau cynghrair a thwrnamaint.
- Tystiolaeth o dwf ariannol a chyfranogiad cynaliadwy dros gyfnod y strategaeth.